NICE National Institute for Health and Care Excellence

# Tab Gwybodaeth i Gleifion ar gyfer gwasanaethau brys a gofal acíwt

## *Gwneud gwasanaethau yn well i bobl y mae angen gofal brys arnynt*

Mae pwysau ar ysbytai yn parhau i godi am fod pobl yn byw'n hirach ac mae gan lawer ohonynt gyflyrau iechyd hirdymor neu ddifrifol. Mae prinder gofal a chymorth yng nghartrefi a chymunedau pobl yn golygu bod pobl yn mynd i'r ysbyty ar ymweliadau brys ac yn aml yn aros yn hirach nac y mae angen iddynt, neu'n mynd yn sâl eto ar ôl iddynt fynd gartref. Mae NICE wedi ysgrifennu cyngor er mwyn helpu staff a gwasanaethau i roi gofal gwell i bobl sydd â salwch difrifol, yn yr ysbyty a thu allan, fel bod pawb yn cael y gofal cywir pan a ble mae ei angen arnynt.

Hoffem sicrhau y bydd y canllaw hwn yn gwella gwasanaethau drwy sicrhau'r canlynol:

- rhoi mwy o ofal yn agos i gartref – er enghraifft drwy hyfforddi staff ambiwlans i roi mwy o driniaethau i bobl gartref a darparu mwy o nyrsys arbenigol yn y gymuned i gefnogi pobl sydd â chyflyrau iechyd
- mae pobl yn cael y lefel gywir o ofal gan staff cymunedol i sylwi ar broblemau yn gynt, fel pwl o broblem iechyd neu anhawster cymryd meddyginiaethau, a allai fel arall arwain at ymweliad brys â'r ysbyty
- mae pobl y mae angen gofal ysbyty arnynt yn gweld uwch feddyg yn gyflym pan fyddant yn cyrraedd ac yna'n rheolaidd os byddant yn aros, gan gynnwys dros benwythnosau a gwyliau banc
- mae pobl yn gadael yr ysbyty cyn gynted ag y gallant – dylai staff yr ysbyty ddechrau cynllunio'r cymorth y bydd ei angen ar bobl pan fyddant yn cyrraedd adref yn gynnar, a gweithio gyda staff iechyd a gofal cymdeithasol yn y gymuned i wneud yn siŵr bod hyn ar waith.

© NICE 2018 All rights reserved. Subject to Notice of rights

**Gwneud penderfyniadau gyda'ch gilydd**

Caiff y penderfyniadau gorau ynglŷn â thriniaeth a gofal eu gwneud ar y cyd. Dylai eich gweithwyr iechyd proffesiynol roi gwybodaeth glir i chi, trafod eich opsiynau â chi a gwrando'n ofalus ar eich barn a'ch pryderon.

Os na allwch ddeall y wybodaeth a roddir i chi, dwedwch hynny wrth eich gweithiwr iechyd proffesiynol.

Darllenwch ragor am wneud penderfyniadau am eich gofal.

Gwnaethom ysgrifennu'r canllaw hwn gyda phobl sydd wedi defnyddio gwasanaethau gofal brys a staff sy'n eu trin a'u cefnogi. Mae'r holl benderfyniadau yn seiliedig ar yr ymchwil orau sydd ar gael.

ISBN 978-1-4731-1259-9

© NICE 2018 All rights reserved. Subject to Notice of rights